



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


www.cymru.gov.uk

Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Preswyliaeth Gyffredin a Datrys Anghydfodau

- Mae preswyliaeth gyffredin yn pennu pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am asesu a diwallu anghenion person o ran gofal a chymorth – **dim newid i hyn.**
- Rydym yn bwriadu ymestyn y llety penodedig i gynnwys cynlluniau lleoli oedolion (Cysylltu Bywydau) yn ogystal â chartrefi gofal, ac rydym yn ymgynghori ynghylch a ddylid cynnwys mathau eraill o lety (ee byw â chymorth).
- Bydd rheoliadau yn ymdrin ag anghydfodau am breswyliaeth gyffredin person, a bydd gweithdrefnau Datrys Anghydfodau hefyd yn berthnasol i anghydfodau am y ddyletswydd dros dro ac (os oes angen) hygludedd gofal a chymorth.

Y Tri Philer



Canolbwynt yr Aseiad – yn gymesur ag anghenion ac amgylchiadau


Asesu a allai darparu:

- Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy
- Gwasanaethau Ataliol
- neu Ofal a Chymorth (wedi ei hunanreoli neu fel arall)

... gyfrannu at gyflawni canlyniadau llesiant personol yr unigolyn neu fel arall ddiwallu anghenion, ac i ba raddau y byddai'n gwneud hyn.

(.... ac mae'r drefn yn bwysig)

Mae penderfynu ar gymhwysra yn seiliedig ar ddyfarniad sy'n deillio o broses o asesu anghenion sydd wedi ei strwythuro o amgylch y pum elfen hyn:



Rhoddir y statws cymhwysra i'r angen – nid y person


Y Trothwy Cenedlaethol

“Y Prawf Gallu a Gallu yn Unig”

Bydd gan y person anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra os bydd asesiad yn sefydlu y gallant, ac y gallant yn unig, oresgyn rhwystrau i gyflawni eu canlyniadau llesiant os bydd yr awdurdod lleol yn paratoi cynllun gofal a chymorth iddynt (neu gynllun cymorth i ofalwr) i ddiwallu eu hangenion a aseswyd, a sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni.

Nid yw dyfarnu cymhwystra yn ymwneud â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth; mae'n ymwneud â gwarantu mynediad i ofal a chymorth lle na fyddai'n bosibl bodloni canlyniadau llesiant hebddynt.

Llwybr y System



Model o ofal a chymorth a addaswyd o adroddiad ar Fynediad at Ofal a Lles yng Nghymru AGGC (Mawrth 2013)

Mae gan bobl yr ymddengys fod ganddynt anghenion gofal a/neu gymorth hawl i gael mynediad at **wybodaeth, cyngor a chynhorthwy** sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal

Cymhwysra Cenedlaethol – rhaidd i bob awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau gofal a/neu gymorth wedi eu rheoli i unigolion y mae eu hanghenion yn bodloni meini prawf cenedlaethol

Rhaid i asesiadau o anghenion fod yn gymesur ag amgylchiadau'r unigolyn

Dyletswydd gyffredinol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y gymuned

Hawl orfodadwy unigolyn i gael ei anghenion gofal a chymorth wedi eu diwallu

Bydd rhai pobl yn **gymwys yn awtomatig** i dderbyn gofal a chymorth e.e. pobl sy'n wynebu risg, PDG

Ataliol

Sbectrwm o Ofal a Chymorth

Dwys

Ystyriaethau Penodol ar gyfer Plant

Rhan 3 o'r Ddeddf Plant wedi'i diddymu (gan gynnwys adran 17) a'i newid gan reoliadau a chod ymarfer o dan rannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- Rhaid i'r asesiad ganolbwyntio ar y plentyn –
 - mae'r broses wedi'i chynllunio o amgylch anghenion y plentyn (yr amgylchedd, y dogfennau, y dull cyfathrebu)
 - Caiff y plentyn ei weld a'i gadw'n ganolog drwy gydol yr asesiad, ac mae safbwynt y plentyn yn cael ei ystyried bob tro
- Gofynnol i awdurdodau lleol geisio sicrhau mai teulu'r plentyn sy'n gyfrifol am ei fagu, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â lles y plentyn.
- Mae'r rheoliadau drafft yn nodi'n benodol anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer plant. Mae hyn yn cynnwys nodi a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ddatblygiad y plentyn pe na bai'r angen yn cael ei ddiwallu.
- Bydd y Canllawiau Arfer yn cael eu cyhoeddi gyda'r Cod Ymarfer

Cysylltiadau â Diogelu

- Ni ddylai'r codau ymarfer ar rannau 3 a 4 gael eu hystyried ar wahân i'r cod sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Rhan 7: Diogelu.
- Rhaid i ran allweddol o'r asesiad fod i benderfynu a oes achos rhesymol i amau bod rhywun yn profi neu'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed arall.
- Rhaid i Awdurdodau Lleol ddiwallu anghenion pan fo hyn yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn y plentyn – mae'r ddyletswydd hon yn drech na'r Prawf 'Gallu, a Gallu yn Unig' ('Can and Can Only').
- Mae gofynion i ystyried a ddylai ALI arfer swyddogaethau o dan Ran 4 (Gofal a Goruchwylio) a Rhan 5 (Amddiffyn Plant) o Ddeddf Plant 1989 yn parhau mewn grym. Mae'n ofynnol gweithredu “**ar unwaith a heb oedi**” pan fo amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg – mae'r ddyletswydd (i ymchwilio) yn adran 47 o Ddeddf Plant 1989 yn parhau.

Darparu Taliadau Uniongyrchol yn y dyfodol

Trosolwg

- Symiau ariannol a ddarperir gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolwyr, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.
- Grymuso pobl i gael dewis a rheolaeth dros y ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu, sy'n ategu eu dulliau cymorth presennol.
- Cymryd lle gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdod lleol neu a gomisiynir ganddo. Gallant fod ar gyfer holl anghenion gofal a chymorth person, neu ar gyfer rhan o anghenion gofal a chymorth person.

Nodau

- Parhad taliadau uniongyrchol fel ffordd o gyflawni canlyniadau llesiant pobl ond mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i ddyfarnu pa ofal a chymorth sy'n gywir iddynt hwy, yn eu barn hwy.
- Estyn argaeledd taliadau uniongyrchol i fathau eraill o ofal a chymorth ac i unigolion sydd wedi eu heithrio rhag eu cael ar hyn o bryd.

Yn aros yr un peth:

- gallu awdurdodau lleol i ddarparu taliadau uniongyrchol;
- mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i benderfynu ar y gofal a'r cymorth y maent o'r farn sy'n gywir iddynt hwy i gyflawni eu canlyniadau personol;
- cynnal y gallu i gael taliad uniongyrchol â chymorth lle y maent yn methu ei reoli, neu'n amharod i'w reoli.

Taliadau Uniongyrchol: Newidiadau Allweddol

Newidiadau Allweddol

- ar gael ym mhob achos lle y mae unigolyn, neu ei gynrychiolydd, yn mynegi dymuniad i dderbyn un.
- yr unig gyfyngiad yw lle y mae'r awdurdod lleol o'r farn na all yr anghenion gofal a chymorth gael eu diwallu drwy daliadau uniongyrchol;
- dileu'r gwaharddiadau presennol o rai dosbarthiadau o bersonau sy'n cael taliadau uniongyrchol.
- ar gael ar gyfer unrhyw anghenion am ofal a chymorth a nodwyd y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu diwallu.
- bydd derbynnydd yn gallu defnyddio ei daliadau uniongyrchol i brynu ei ofal a'i gymorth yn uniongyrchol gan ei awdurdod lleol;
- bydd derbynnydd yn gallu cyflogi perthynas agos i ddarparu ei ofal a'i gymorth, neu ddarparu cymorth o ran rheoli ei daliad, lle y mae'r awdurdod o'r farn bod hyn yn angenrheidiol i gynnal ei lesiant;
- bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda phobl, neu eu cynrychiolwyr, i archwilio ffyrdd arloesol o ddiwallu eu hanghenion drwy daliadau uniongyrchol;
- annog canfyddiad bod taliadau uniongyrchol yn un o amrywiaeth o ffyrdd y gellir diwallu anghenion. Nid yw'n ystyriaeth eilaidd.

Crynodeb

- O ganlyniad bydd taliadau uniongyrchol yn y dyfodol yn gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol llai cyfyngol, sy'n cynorthwyo arloesedd.